# Meredith Grey

07700 123456 | LinkedIn | GreyM@hotmail.com | GitHub

## SGILIAU TECHNEGOL

- **Ieithoedd rhaglennu**; JavaScript - Python - C ++ - C #
- **Iaith Modelu:** Unified Modelling Language (UML)
- **Amgylchedd datblygu integredig:** Visual Studio - PyCharm
- **Technolegau**: Dysgu Peirianyddol - Dysgu Dwfn

## ADDYSG

**MSc Peirianneg Meddalwedd gyda Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol,** *Prifysgol Caerdydd* 2023 – presennol

- Datblygiad Meddalwedd mewn modd Agile: Creu gofynion sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ddefnyddwyr ar gyfer system sy'n defnyddio meddalwedd, gan ddadansoddi'n feirniadol y problemau cysylltiedig, dadansoddi, cymhwyso a chyfiawnhau rheolaeth berthnasol o lifoedd gwaith y côd gwreiddiol.
- Darparu Profiad Defnyddwyr: Cynllunio, dylunio a phrototeipio profiadau defnyddwyr a rhyngwynebau defnyddwyr ar gyfer nifer o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a systemau rhyngweithiol

**BSc Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol**, *Prifysgol Caerdydd* 2020 – 2023

- **Perfformiad a Graddiadwyedd:** Cynllunio a defnyddio amrywiaeth o dechnegau, mecanweithiau a thechnolegau a ddefnyddir mewn côd, ar gyfer y cleient a'r gweinydd, i wella perfformiad.

## PROFIAD PERTHNASOL

**Intern Peirianneg Meddalwedd,** *Talkative* Gorffennaf 2023 – Medi 2023

- Gwella platfform negeseuon Talkative drwy ychwanegu nodweddion newydd cyffrous, i wneud pethau'n haws ac yn fwy boddhaus i ddefnyddwyr gyfathrebu. Dilyn canllawiau'r diwydiant a rheolau codio i sicrhau ansawdd uchel.
- Gweithio'n agos â pheirianwyr profiadol i gynnal adolygiadau cod cynhwysfawr, nodi cyfleoedd i wneud gwaith optimeiddio a symleiddio'r gronfa godau sy'n bodoli eisoes, gan arwain at wella effeithlonrwydd y system.
- Bod yn rhan allweddol o ddatrys a chywiro anghysondebau meddalwedd a adroddir gan ddefnyddwyr.

**Prosiect Tîm Mawr,** *Prifysgol Caerdydd* Medi 2022- Mai 2023

- Cymryd rhan mewn prosiect tîm Peirianneg Feddalwedd sylweddol a chymhleth, a bod yn gwbl gyfrifol am ddatblygu elfennau pwysig o'r system ddilynol.
  Syntheseiddio gwybodaeth, syniadau, adnoddau a thechnegau i ddatblygu a chyflawni ateb sydd o safon ac sy'n gweithio, gan gyflawni amcanion addas o ran cynnyrch, i ddangos, dylunio, gweithredu, a phrofi camau cyflawni'r dull gweithredu o'r feddalwedd a ddewisir.
- Pennu a defnyddio'r adnoddau a'r technegau priodol i ddarganfod gofynion gweithredol ac anweithredol gan y cleient a sicrhau bod yr ateb yn diwallu anghenion dilys y rhanddeiliaid.

## SGILIAU ALLWEDDOL

- **Datrys Problemau**: Meddu ar sgiliau meddwl yn feirniadol da a sgiliau gwneud penderfyniadau i ddatrys problemau yn brydlon ac yn effeithlon wedi'u datblygu drwy fy ngradd Peirianneg Feddalwedd.
- **Cyfathrebu:** Rwy'n gallu cyfathrebu canlyniadau technegol yn glir yn ysgrifenedig ac ar lafar, rwy'n fedrus wrth gyfathrebu gwybodaeth dechnegol gymhleth i gynulleidfaoedd annhechnegol. Datblygais i'r sgiliau hyn drwy wneud lleoliad gwaith yn Talkative.
- **Addasrwydd:** Rwy'n fedrus wrth ddefnyddio amrywiaeth o ieithoedd rhaglennu a fframweithiau, gan wneud y gorau o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael ac ystod o ofynion prosiect ac atebion arloesol.
- **Gwaith tîm:** Bûm yn cymryd rhan hanfodol mewn nifer o brosiectau grŵp yn y brifysgol, gan gydweithio'n agos i gyflawni amcanion cyffredin ac i gyflawni prosiectau meddalwedd yn llwyddiannus.

**Geirdaon ar gael ar gais.**